

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2018 5.30 y h., 17 o DACHWEDD 2018,
GWESTY'R LLEW GWYN, Y BALA

1. Croeso

Estynnodd Sian Shakespear, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at y ffaith fod ei chadeiryddiaeth yn dod i ben yn y cyfarfod hwn. Roedd wedi mwynhau cyfnod ei chadeiryddiaeth. Pwysleisiodd, gyda'r Clwb yn dathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu, bwysigrwydd croesawu aelodau newydd ac yn arbennig ddenu aelodau iau er mwyn sicrhau ei fodolaeth am y 40 mlynedd nesaf. Croesawodd y ffaith fod Gareth Pierce, Cymro sy'n aelod o'r Clwb wedi ei benodi yn Gadeirydd newydd y Cyngor Mynydda Prydeinig gan obeithio y bydd hyn yn agor cyfnod o gydweithio agos rhwng y Clwb a'r CMP ac y bydd Cymru a statws y Gymraeg oddi fewn i'r corff yn elwa o hyn.

Diolchodd i swyddogion y Clwb a gweddill aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth dros y cyfnod a dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd, y swyddogion a'r Pwyllgor yn eu gwaith o lywio gweithgareddau'r Clwb i'r dyfodol.

Ar ran y Pwyllgor ac aelodau'r Clwb, diolchodd Gwyn, cadeirydd newydd y Clwb i Sian am ei gwasanaeth penigamp yn y gadair dros y 2 flynedd diwethaf a chyflwynodd rodd fechan iddi fel cydnabyddiaeth.

2. Ethol Cadeirydd 2018 - 2020

Etholwyd Gwyn Williams yn Gadeirydd y Clwb am y cyfnod 2018 - 2020

Diolchodd Gwyn i'r aelodau am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Gadeirydd newydd y Clwb. Roedd wedi bod yn aelod ers 1982 ac wedi elwa yn fawr o'r aelodaeth yma ac roedd yn falch iawn o'r cyfle i allu rhoi rhywbeth yn ôl i'r Clwb.

3. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Dewi Hughes, Eirwen Williams, Alun Hughes, Gwyn Roberts, Linda Williams, Chris Humphreys, Hilary Davies

4. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2017

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar y 4ydd o Dachwedd 2017 yng Ngwesty'r Celtic, Caernarfon fel rhai cywir.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd Iolo fod y Pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, ym misoedd Ionawr, Mai a Medi ym Mhlas y Brenin

Rhai o'r materion a gafodd sylw:

Y rheolau newydd ar ddiogelu data ddaeth i rym ym mis Mai. Er mwyn cydymffurfio â'r polisi roedd yn rhaid i'r Clwb baratoi a mabwysiadau polisi diogelu data yn nodi sut y byddai'n delio hefo'r wybodaeth a gedwir am ei aelodau yn unol â gofynion y rheolau. Fe luniodd Dilys y polisi ar ein cyfer ac fe'i ystyriwyd gan y Pwyllgor a'i fabwysiadu ac mae bellach wedi ei gylchredeg ymysg yr holl aelodaeth.

Ystyried lefel tâl aelodaeth y Clwb ac hefyd ystyried os y dylid cofrestru y Clwb fel elusen neu beidio. Aeth hyn â llawer o amser y Pwyllgor.

Gofynnwyd i Marged Tudur draddodi Darlith Goffa Llew Gwent yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni a "... bryn a mawndir a phabwyr a chraig a llyn." oedd ei phennawd. Roedd yn ddarlith dda iawn ac mae bellach yn bosib ei darllen ar wefan y Clwb.

Bu'r Pwyllgor yn edrych ymlaen hefyd i 2019 a fydd yn flwyddyn bwysig yn hanes y Clwb gan y bydd yn dathlu ei benblwydd yn 40 – wedi ei sefydlu 40 mlynedd yn ôl yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghaernarfon y flwyddyn honno. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid dathlu'r penblwydd arbennig yma yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ac fe sefydlwyd is-banel (sef Gwyn, Eryl a Dwynwen) i ystyried ym mha ffordd y dylid dathlu'r achyslur. Mae'r cynlluniau canlynol ar y gweill:

- Cynnal sgwrs yn y Babell Llen ar y prynhawn dydd Llun gyda Gerallt Pennant yn cadeirio a chytunodd Eric Jones, Dei Thomas a Gwen Aaron i fod ar y panel. Bydd y sgwrs yn cael ei recordio gan Radio Cymru.
- Llogi uned (neu ddwy) ar y maes. Gwnaed cais i'r CMP rannu'r gost o logi'r uned(au) ac roeddynt i weld yn gefnogol i hyn ond heb wneud ymrwymiad pendant. Gallai'r gost fod o leiaf £1200 ar gyfer un uned ond pris yr ail yn llai.
- Bwriad i holi rhai o'r aelodau gwreiddiol megis Anet, Maldwyn ac Iolo (AG) ac ati os oes ganddynt luniau y gellid eu defnyddio ar gyfer arddangosfa yn yr uned.
- Dwynwen yn edrych ar drefnu taith o Gaernarfon (lle sefydlwyd y Clwb yn yr Eisteddfod yn 1979) i faes yr Eisteddfod yn Llanrwst, taith a fyddai yn cymryd oddeutu 12 awr ond yn cael ei rhannu yn gymalau fel y gellid ymuno â hi ar wahanol adegau pe dymunid.

Cyflwynodd Eryl ganllawiau drafft yr oedd wedi ei baratoi ar gyfer aelodau a oedd yn trefnu teithiau preswyl i aelodau'r Clwb ac hefyd mae wedi bod yn diwygio y canllawiau i arweinyddion teithiau.

Cynhaliwyd diwrnod blasu eleni eto ar 7fed Mai gan y Clwb gyda theithiau i fyny Moel Siabod yn y Gogledd, Pumlumon yn y Canolbarth a Fan Frynych a Chraig Cerrig Gleisiad yn y De. Roedd nifer da wedi ymuno â'r daith i fyny Moel Siabod yn y Gogledd ond dim cystal yn y Canolbarth a'r De

Nodais fy niolch personol i Siân am ei chydweithrediad fel Cadeirydd (ac yn ei rôl fel is-gadeirydd ac aelod o'r pwyllgor dros y blynyddoedd) ac i Elen a Myfyr a oedd yn ymadael o fod yn aelodau o'r Pwyllgor eleni.

Derbyniwyd yr adroddiad

6. Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Nododd Eryl ei bod yn braf gallu edrych yn ôl ar flwyddyn brysur a llwyddiannus o weithgareddau gan Glwb Mynydda Cymru, a diolchodd am ymroddiad yr aelodau a'u parodrwydd i drefnu ac i arwain. Nododd fod dros 40 o unigolion wedi gwneud hynny dros y deuddeg mis diwethaf. Mawr oedd ei ddiolch i bob un – ar ei ran ef ac ar ran aelodau'r clwb am y cyfleoedd oedd wedi eu cynnig iddynt.

Trefnwyd 24 o deithiau cerdded penwythnos yn y gogledd, y mwyafrif llethol ar ddydd Sadwrn, ond rhai ar y Sul. Mae'r pwyllgor wedi gofyn am fwy o deithiau Sul, a fydd efallai'n fwy hwylus i rai. Roedd cyfartaledd o bron i 14 ar bob taith a'r nifer fwyaf oedd 21, taith y Diffwys a Llethr o Gwm Mynach dan arweiniad Myfyr ar 6ed Ionawr er ei bod yn "fore cymylog ac oer". Cynhaliwyd 'Taith y Dolig' 2017 ar ddydd Sadwrn, 30 Rhagfyr a denwyd 9.

Cynhaliwyd 11 o deithiau Mercher, gyda chyfartaledd o 23 ar y teithiau hynny. Maent felly'n parhau'n boblogaidd iawn, gyda 31 ar daith Rhys Llwyd yn ardal Bethesda ar y blaen, 29 ar daith Llwybr y Crynwyr yn ardal Dolgellau gyda Mary yn arwain a 28 ar daith yn ardal Dyserth dan arweiniad Arwel.

Da yw gallu nodi bod hanesion a lluniau teithiau'r de yn ymddangos ar y wefan erbyn hyn. Niferoedd – a phroffil oedran digon tebyg i'r gogledd – cyfartaledd o 12 ar 11 o deithiau. Llawer o ddiolch i Dewi Hughes am ei waith trefnu. Braf hefyd yw gallu dweud bod rhai o'r gogledd wedi bod ar rai o'r teithiau hyn – fel y daeth tri o waelodion Ceredigion ar daith Dolgellau.

Ond wrth gwrs nid ffigyrau o reidrwydd yw mesur llwyddiant y clwb. Fel clwb mynydda, credai fod angen inni gynnal gweithgareddau mwy heriol. Yn anffodus, mae'r dringo wedi dod i ben – am y tro beth bynnag. Llongyfarchiadau i Morfudd, Dwynwen, Gerallt a Gareth Everett am gerdded Cylch Paddy Buckley; 74 milltir, 47 copa a dros 28,000' o ddringo mewn pedwar diwrnod!

Amrywiol fu llwyddiant y Diwrnod Blasu a drefnwyd am yr ail flwyddyn ar ddydd Llun Gŵyl Fai. Dim ond chwech, llawer llai na'r arfer, ddaeth ar daith y de i Graig Cerrig Gleisiad. Wyth oedd ar daith Pumlumon, ond pedwar nad oeddent yn aelodau tra'r aeth 20 i gopa Moel Siabod, nifer dda yn cerdded efo'r clwb am y tro cyntaf.

Ychydig yn llai na'r nifer arferol fu ar daith Chwefror y Clwb i'r Alban, 13 yn treulio wythnos yn Inchree a chael tywydd cyfnewidiol a waethygodd at ddiwedd yr wythnos. I'r gwrthwyneb yn llwyr cafwyd wythnos anhygoed o braf ar Eilean Sgithearnach ym mis Mai a chyfle i'r rhan fwyaf o'r criw gyrraedd pob copa dros 3,000 ar grib ryfeddol y Cuillin. Un profiad cofiadwy oedd ymdrochi yn Loch Coir a Ghrunnda ar uchder o 2600'. Diolchodd i Chris Humphreys a Gareth Everett am drefnu ac i Maldwyn Peris am barhau i drefnu teithiau Chwefror; gan obeithio y bydd cyfle am fynydda gaeaf go iawn rhyw dro!

Yn yr un modd, diolchodd i Gwyn Williams am drefnu'r ymweliad ganol wythnos ar gyfer y 22 a aeth i Wharfedale ddechrau Mai.

Cafwyd chwip o ddarlith yn yr Eisteddfod gan Marged Tudur. Diolch iddi hi – y ferch gyntaf a'r person ieuengaf o ddigon (hyd yn hyn) i draddodi Darlith Goffa Llew Gwent.

Byddai'r dasg o drefnu rhaglen Ionawr – Ebrill yn dechrau gyda hyn; y nod fyddai cynnig amrywiaeth o deithiau mynydda o wahanol hyd ac o wahanol her a gwahanol ardaloedd; y patrwm sylfaenol oedd taith fynydda eithaf sylweddol bob pythefnos ac yna cynnig gweithgareddau ychwanegol megis sgramblo neu feicio yn y bylchau rhyngddynt yn ogystal ag ambell daith gerdded llai heriol – roedd yna rhai wedi gwneud cais am fwy o deithiau felly ar y penwythnos.

Pwysleisiodd Eryl ei fod bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth. Gofynnodd i'r aelodau fod yn barod i gynnig arwain a threfnu dros y flwyddyn sydd i ddod.

Derbyniwyd yr adroddiad

7. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Cafwyd adroddiad gan Lolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb
Adroddodd ar y canlynol :

- i. Cyflawnwyd yr holl newidiadau y cytunwyd arnynt yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd, yn dilyn trafodaethau gan y pwyllgor.
- ii. Mae'r wefan bellach yn gydnaws â ffonau clyfar, llechi a chyfrifiaduron o bob math.
- iii. Trosglwyddwyd yr holl gannoedd o adroddiadau a lluniau i'r drefn newydd.
- iv. Bellach mae manylion defnydd pob rhan o wefan y Clwb yn cael eu cofnodi gan Google Analytics. Golyga hyn fod gennym wybodaeth hynod o gyflawn o sut mae'r wefan yn cael ei defnyddio, gyda dadansoddiad manwl o'r defnyddwyr (ond dim manylion personol ar gael) gan gynnwys yr offer a ddefnyddir. .
- v. Diddymwyd y tudalennau y cytunwyd arnynt.
- vi. Daeth y wefan newydd yn "fyw" ar ddechrau Ionawr 2018
- vii. Ychwanegwyd cyfrifon Trydar (Twitter) ac Instagram at ein cyfri Gweplyfr (Facebook), i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan newydd. Hyd y gellir, cyhoeddir pob gweithgaredd – ynghyd a dolen i unrhyw adroddiad ar y wefan – ar y Gweplyfr a Trydar. Gall unigolion ychwanegu eu lluniau neu sylwadau eu hunain at rhain, yn ogystal â'r cyfrif Instagram.
- viii. Ers dechrau Ionawr 2018, bu 37,929 ymweliad â'r wefan gan 3,686 o ddefnyddwyr (74% o'r DG, 8% o Ffrainc, 4.7% o'r UDA a'r gweddill o wledydd eraill), 327 o rhain yn ddefnyddwyr cyson dros gyfnod. Roedd 30% o'r defnyddwyr dan 45 oed a 47% yn ferched. Bu'r defnydd yn eithaf cyson drwy'r flwyddyn, gyda phlegynau pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb.
- ix. Mae holl luniau'r Clwb bellach yn cael eu cadw ar gyfri Flickr pwrpasol. Mae hyn yn golygu y gall aelodau weld lluniau o safon uchel yn rhwydd. Hyd yma, bu'r gwasanaeth hwn am ddim ond mae Flickr newydd gyhoeddi mai dim ond hyd at 1000 o luniau y gellir eu cadw ar un cyfri o ddechrau Ionawr 2019 ymlaen (mae tua 5 mil a hanner o luniau ar gyfri'r Clwb – sy'n rhan bwysig o'n hanes). I gynnal y gwasanaeth bydd yn rhaid trosi'r cyfri i un "proffesiynol", fydd yn costio tua £30 y flwyddyn (mae'r taliad mewn \$ UDA, felly gall amrywio). Gofynnwyd am ganiatâd i wneud hynny, er mwyn cynnal y gwasanaeth.
- x. Nodwyd bod tudalen Newyddion ar y wefan a bod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau.
- xi. Oherwydd y rheolau newydd parthed cadw data personol am unigolion, diddymir rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost arweinwyr teithiau oddi ar dudalen "Rhaglen" y wefan unwaith y bydd y gweithgaredd wedi digwydd.

- xii. Gyda chymorth gan Rhys Jones, Waunfawr, (a diolch arbennig iddo) darparwyd “ap” newydd ar gyfer systemau iOS ac Android sydd yn cysylltu’n uniongyrchol a rhwydd â thudalennau gwefan newydd y Clwb. Daeth rhain ar gael o ddechrau Ionawr 2018 hefyd. Erbyn y 10fed o Dachwedd roedd 109 o ddefnyddwyr iOS a 44 o ddefnyddwyr Android (gyda 5 o’r UDA a 2 o Asia) wedi lawr-lwytho’r “ap” i’w peiriannau. Gellir lawr lwytho’r “ap” o safleoedd “apiau” iOS ac Android.
- xiii. Diolchodd i bawb a ddarparodd adroddiadau/hanesion a lluniau ar gyfer y wefan yn ystod y flwyddyn a oedd yn gofnod arbennig o’n gweithgareddau.

Derbyniwyd yr adroddiad ac fe gytunwyd y dylid gwneud y taliad i Flickr am gadw lluniau’r Clwb ar y safle

8. Adroddiad y Trysorydd.

A. Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2017/2018.

Adroddwyd

- i. bod nifer yr aelodau eleni yn 308 (cynnydd o 303 y llynedd)
- ii. bod rhai o deithiau preswyl y Clwb yn ystod y flwyddyn wedi gwneud colled
- iii. bod y cyfrifon yn dangos bod gan y Clwb £5,540.52 yn y banc

Cytunwyd

- i. derbyn y cyfrifon ar gyfer 2017/2018
- ii. Nodi na ddylai teithiau preswyl wneud colled

B. Cyflwynwyd adroddiad y Trysorydd ar dâl aelodaeth 2019 a statws elusennol y Clwb

Adroddwyd bod £14.25 o’r £15 tâl aelodaeth y Clwb yn mynd i’r Cyngor Mynydda Prydeinig Yn sgil hyn a’r ffaith bod yna gostau gweinyddol ynghlwm â rhedeg y Clwb roedd ar hyn o bryd yn rhedeg ar golled flynyddol o rhyw £400 y flwyddyn. Nid oedd hyn yn gynladwy yn y tymor hir

Roedd y Pwyllgor wedi ystyried hyn ac wedi argymhell i’r Cyfarfod y dylid cynyddu ‘r tâl aelodaeth i £20 y pen o Ionawr 2019 ymlaen

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi argymhell y dylid cofrestru’r Clwb fel elusen ac wrth wneud hyn gellid manteisio ar ad-ennill treth dan y Cynllun Rhodd Cymorth. Gobeithid wrth wneud hyn y gellid cadw’r cynnydd yn y tâl aelodaeth i’r isafswm ac osgoi cynnydd arall yn y dyfodol agos

Cytunwyd

- i. dylid cynyddu tâl aelodaeth y Clwb i £20 o 1 Ionawr 2019 ymlaen
- ii. dylid gwneud cais i’r Comisiynwyr Elusennau i gofrestru y Clwb fel elusen
- iii. mai aelodau’r Pwyllgor fyddai ymddiriedolwyr yr elusen yn unol â’r gofynion
- iv. diolch i’r Trysorydd am ei holl waith trylwyr wrth baratoi’r adroddiad

9. Swyddogion y Clwb

A. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2018:

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

Trysorydd: Dilys A Phillips (gyda Richard Roberts i barhau gymorthwyo yn ôl yr angen)

10. Ethol Is-Gadeirydd

Etholwyd Dwynwen Pennant i wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Clwb

11. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2018

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth bod Elen Huws a Myfyr Thomas wedi datgan eu bod am roi'r gorau i fod yn aelodau o'r Pwyllgor ar ôl eleni. Roedd Iona Evans a Richard Roberts wedi cytuno i ganiatau i'w henwau gael eu rhoi ymlaen i fod yn aelodau o'r Pwyllgor. Roedd un sedd wag dal i'w llenwi.

Yn dilyn hyn bydd aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

Cadeirydd

Gwyn Williams (Llanrwst)

Is-gadeirydd

Dwynwen Pennant

Aelodau

Iona Evans

Raymond Griffiths

Dewi Hughes

Richard Roberts

Eirwen Williams

Stephen Williams

Sedd Wag

Swyddogion

Dilys A Phillips

Eryl Owain

Iolo ap Gwynn

Iolo Roberts

Trysorydd

Ysgrifennydd Gweithgareddau

Ysgrifennydd y Wefan

Ysgrifennydd Cyffredinol

Cytunwyd

i. ar yr aelodaeth uchod i wasanaethu ar y Pwyllgor yn 2018 gan oedd neb arall wedi mynegi diddordeb

ii. rhoi'r hawl i'r Pwyllgor gyfethol aelod i'r sedd wag

12 Archwilydd

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

13. Adroddiad gan y Cadeirydd

Wrth i'r cyfarfod ddod i ben cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol:

A. Is-Bwyllgorau/Paneli

Bod trafodaeth wedi bod yn y Pwyllgor ynglŷn â'r angen i'r Clwb sefydlu Is-Bwyllgor/Panel ar sail ad-hoc a fyddai'n fodd i'r Clwb allu lleisio barn ar wahanol faterion e.e. dogfennau ymgynghorol ar faterion yn y maes Awyr Agored a.y.y.b. Credid ei bod yn bwysig i'r Clwb leisio barn ar rai o'r materion hyn gyda phwyslais Cymreig a allai fod yn wahanol i safiad cyrff fel y Cyngor Mynydda Prydeinig, corff y mae'r Clwb yn aelod ohono. Teimlid y byddai is-bwyllgor o'r fath yn fanteisiol gan fod amser yn brin yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn aml i roi sylw i faterion o bwys. Nodwyd hefyd na fyddai raid i aelodau'r is-bwyllgor o reidrwydd fod yn aelodau o'r Pwyllgor

Cytunwyd

i. â'r egwyddor o sefydlu Panel a fyddai yn gallu rhoi ystyriaeth i faterion penodol yn ôl yr angen

ii. y dylid anfon neges at yr holl aelodau yn eu gwahodd i fynegi diddordeb mewn bod yn aelod o banel o'r fath.

B. Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP)

Croesawodd y newyddion fod Gareth Pierce wedi ei benodi yn Gadeirydd y Cyngor Mynydda Prydeinig. Mae Gareth hefyd yn aelod o'r Clwb. Nododd y gallasai fod yn gyfle euraidd i geisio pwyso ar y CMP i sefydlu cangen benodol o'r Cyngor ar gyfer Cymru. Hefyd gobeithid y bydd yn rhwyddach i gael cymorth ymarferol ganddynt e.e. drwy rannu cost stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac ati

Nododd ei bod yn bwysig bod y Clwb yn rhoi pob cefnogaeth i Gareth wrth iddo ymgymeryd â'i ddyletswyddau. Nododd hefyd y byddai presenoldeb aelodau'r Clwb yn y tri cyfarfod rhanbarthol a gynhelir gan y CMP yng Nghymru yn gallu bod yn ddefnyddiol i sicrhau fod presenoldeb o Gymry Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn

Cytunwyd

i. y dylid llongyfarch Gareth Pierce ar ei ethol yn gadeirydd y Cyngor Mynydda Prydeinig

ii. y dylid anfon nodyn at yr holl aelodau yn eu hatgoffa am fodolaeth y tri phwyllgor rhanbarthol (Gogledd, Canolbarth a De) sydd gan y CMP a phwysleisio mai da o beth fyddai i gymaint o aelodau'r Clwb â phosib fynychu'r cyfarfodydd yma.

14. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth cais i drafod unrhyw fater arall.

Nid oedd yna wr/gwraig gwadd eleni a felly cafwyd y cinio blynyddol yn syth ar ôl y cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu presenoldeb. Cyfeiriodd at waeledd Gwilym Jackson ac Aneurin Phillips ac ar ran y Clwb dymunodd adferiad llwyr a buan i'r ddau ohonynt. Hefyd llongyfarchodd Iolyn ac Eirlys Jones ar gwblhau'r gamp o gerdded llwybr arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd - cyfanswm y pellter 870o filltiroedd